FCN | THE FARMING COMMUNITY NETWORK

Funded by MACMILLAN CANCER SUPPORT

Disgrifiad Swydd

Rôl: **Swyddog Rhaglen FCN a Macmillan (Cymru)**

Lleoliad: Gweithio o gartref gyda theithio a gweithio hyblyg yn ddisgwyliedig*

Oriau: 17.5 awr yr wythnos

Cyflog: £30,000 pro rata

Contract: Cyfnod penodol o ddwy flynedd (adnewyddiad yn bosib os bydd cyllid yn caniatáu)

Yn adrodd i: Rheolwr Cenedlaethol (Cymru)

Dyddiad: Mawrth 2024

Mae FCN yn elusen genedlaethol ac yn sefydliad gwirfoddol sy'n weithredol yng Ngymru a Lloegr yn gweithio i helpu i wella iechyd a lles pobl mewn ffermio gan ddarparu cymorth bugeiliol i'r rhai sy'n wynebu anawsterau o fewn busnes y fferm neu'n y cartref, ac sy'n achosi straen a phryder iddynt. .

Trwy bartneriaeth newydd gyffrous gyda Chymorth Canser Macmillan - ac mewn ymateb i bwysau cynyddol a newid yn y sector amaethyddol - mae FCN yn ehangu ei ddarpariaeth gwasanaeth, gyda ffocws ar waith rhagweithiol i gefnogi iechyd a lles ffermwyr, eu teuluoedd, ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Fel rhan o'r fenter newydd hon, rydym yn recriwtio Swyddog Rhaglen FCN a Macmillan (Cymru). Byddwch yn rhan o dîm FCN, gan helpu i feithrin perthnasoedd, mynychu digwyddiadau, darparu hyfforddiant, codi arian a datblygu rhaglenni yn eich rhanbarth. Yn ganolog i'ch rôl fydd helpu i gyflawni nodau prosiect Macmillan yn eich rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys:

1. Cynyddu gwybodaeth am ganser a'i effaith
2. Rhannu cynnig cymorth Macmillan
3. Adeiladu llwybrau atgyfeirio i ac o wasanaethau Macmillan
4. Casglu syniadau yn y cymunedau ynghylch beth fyddai'n gwella'r gefnogaeth i'r rhai mewn cymunedau ffermio / gwledig gyda chanser
5. Darparu mewnwelediad i Macmillan a'r GIG a phartneriaid eraill ar yr hyn y mae gofal personol yn ei olygu i'r gymuned hon
6. Annog ymyrraeth gynnar

Yn ogystal â hyn, byddwch hefyd yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau eraill i gefnogi FCN a Chymorth Canser Macmillan, gan gynnwys helpu i annog pobl yng Nghymru i wirfoddoli gyda'r elusen, gyda ffocws ar gefnogi y rheiny yr effeithir gan ganser.

Byddwch yn atebol i Reolwr Cenedlaethol (Cymru), a fydd yn eich cefnogi yn eich gwaith yn ymgysylltu â'r gymuned ffermio ac yn codi ymwybyddiaeth o waith FCN a Chymorth Canser Macmillan.

Funded by

Mae nawr yn amser cyffrous i ymuno â FCN – rydym yn gweithredu ein strategaeth bum mlynedd, 'Fit for a New Farming Future' (2020-2025), ac rydym yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i greu dyfodol ffermio gwydn ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr.

Byddwch yn gweithio o'ch menter eich hun am lawer o'r amser, a bydd angen i chi gael mynediad at gludiant i'ch galluogi i gyflawni dyletswyddau'r rôl. Ad-delir costau milltiredd.

Prif Dasgau:

Byddwch yn mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau ar ran FCN, gan godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan yr elusen yn ogystal â Chymorth Canser Macmillan. Byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi a recriwtio gwirfoddolwyr i gefnogi prosiect Macmillan a helpu i hybu enw da FCN. Gan ddefnyddio eich gwybodaeth helaeth am y sector ffermio, byddwch yn gyswllt pwysig i wirfoddolwyr yn y rhanbarth, gan helpu i ddarparu goruchwyliaeth a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng gwirfoddolwyr a thîm y swyddfa genedlaethol.

Byddwch hefyd yn gweithio i gysylltu â ffermwyr, gweithwyr fferm, ac eraill sy'n byw ac yn gweithio yn y gymuned ffermio, a'u teuluoedd, mewn marchnadoedd, sioeau ac achlysuron eraill fel y bo'n briodol. Bydd gennych sgiliau cyfathrebu a chyflwyno ardderchog a byddwch yn hyderus o flaen cynulleidfaoedd. Bydd gennych sgiliau trefnu cryf a phrofiad o gyfathrebu a gweithio gyda grwpiau mawr ar draws sawl safle a lleoliad.

Mae cyfrifoldebau allweddol ar gyfer y rôl/rolau hyn yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu prosiect Macmillan, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws FCN a Chymorth Canser Macmillan
- Helpu i recriwtio gwirfoddolwyr priodol yng Nghymru i gefnogi gwaith FCN wrth gyflawni prosiect Macmillan a chefnogi'r rhai â chanser mewn ardaloedd gwledig a chymunedau ffermio
- Darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth barhaus i wirfoddolwyr, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr rhanbarthol eraill
- Hwyluso a chynnal hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o FCN a Chymorth Canser Macmillan
- Cefnogi a chysylltu â gwirfoddolwyr, cydlynwyr gwirfoddolwyr ac aelodau eraill o staff
- Goruchwylio'r broses recriwtio a sefydlu gwirfoddolwyr ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n ymuno fel rhan o brosiect Macmillan a datblygu arfer gorau
- Datblygu gwybodaeth a sgiliau gwirfoddolwyr gan gynnwys cymryd rhan yng nghynnig cymorth Rheoli Gwirfoddolwyr Macmillan (cynefino, gweithdai dysgu a datblygu, hyfforddiant anffurfiol ac ati)
- Sicrhau bod DBS gwirfoddolwyr a gofynion diogelu yn gwbl sicr

- Cefnogi ymateb brys ar sail ranbarthol e.e. digwyddiadau tywydd ac achosion o glefydau, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr rhanbarthol eraill
- Cynorthwyo i ddarparu hyfforddiant mewnol ac allanol, gan weithio ochr yn ochr â Phennaeth Cyfathrebu a Datblygu a'r tîm hyfforddi, a nodi a datblygu cyfleoedd codi arian
- Cymryd rhan mewn mentrau a phrosiectau rhagweithiol newydd y mae FCN yn eu datblygu a'u gweithredu.

Manyleb swydd Swyddog Rhaglen FCN a Macmillan :

Meini prawf hanfodol:

- Wedi eich lleoli yng Nghanolbarth neu Ogledd Cymru ac yn barod i deithio yn y gwaith.
- Angerdd am ffermio a lles y bobl sy'n gweithio ynddi.
- Gwybodaeth helaeth a chysylltiadau â'r diwydiant ffermio.
- Gallu rhoi arweiniad i wirfoddolwyr pan fo angen.
- Sgiliau cyfathrebu wyneb yn wyneb ac ar-lein ardderchog.
- Sgiliau cysylltiadau cyhoeddus da ac yn gallu datblygu perthynas â'r wasg a datblygu cyfleoedd codi arian.
- Medrus mewn cyfres rhaglenni MS Office gan gynnwys Word, Excel a PowerPoint.
- Sgiliau rheoli prosiect rhagorol a'r gallu i weithio i derfynau amser.
- Chwaraewr tîm sy'n llawn cymhelliant ac yn gallu gweithio'n annibynnol am gyfnodau hir.
- Y gallu i weithio gartref a gweithio mewn modd symudol a hyblyg.
- Wedi arfer gweithio'n effeithiol mewn timau bach a thrwy dechnolegau o bell fel Zoom.

Meini prawf dymunol:

- Siaradwr Cymraeg rhugl
- Cefndir mewn ffermio neu fusnesau cysylltiedig – gallu trafod materion ffermio yn wybodus.
- Wedi gweithio yn y sector elusennol o'r blaen.
- Bod wedi cwblhau Addysg Uwch (Safon Uwch, HNC, HND, gradd sylfaen, baglor i gyd wedi'u hystyried).
- Profiad o reoli prosiectau
- Profiad o reoli digwyddiadau
- Profiad o reoli gwirfoddolwyr

* Mae'n bosibl y gofynnir i chi hefyd gefnogi'r rhanbarthau cyfagos os oes angen mewn sefyllfaoedd brys neu i gyflenwi dros wyliau blynyddol neu absenoldebau. Bydd adegau pan fydd angen mynychu digwyddiadau gyda'r nos neu ar benwythnosau. Yn yr achosion hyn, bydd iawndal yn cael ei ystyried fesul achos ar ffurf amser i ffwrdd yn lle hynny.

I wneud cais am y rôl hon, anfonwch CV a llythyr mynegi diddordeb yn nodi sut rydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd i debbie@fcn.org.uk .

FCN | THE FARMING COMMUNITY NETWORK

Funded by MACMILLAN CANCER SUPPORT

Mae FCN yn gyflogwr cynhwysol ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n cefnogi ein cenhadaeth, ein hethos a'n gwaith sy'n helpu i greu dyfodol llewyrchus i ffermio yn y DU.